Y Grŵp Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg
Education, Culture and Welsh Language Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lisa Winstone
Prif Weithredwr
Cyngor y Gweithlu Addysg
9fed Llawr, Tŷ Eastgate
35-43 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref: MA/LN/2328/25

20 Tachwedd 2025

Annwyl Lisa

**DYRANIADAU AR LEFEL GENEDLAETHOL O RAN NIFEROEDD MYFYRWYR AR GYFER RHAGLENNI ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON SY’N DYFARNU STATWS ATHRO CYMWYSEDIG: BLWYDDYN ACADEMAIDD 2026/27**

1. Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno ar y nifer o athrawon a ddymunir yn genedlaethol ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) llawn amser sy’n dyfarnu statws athro cymwysedig (SAC) ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

**Y cefndir a’r sefyllfa bresennol**

2. Rydym yn parhau i ddefnyddio’r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon (TPSM) i ragweld y galw cenedlaethol tebygol yn y dyfodol am athrawon sydd newydd gymhwyso mewn lleoliadau a gynhelir. Mae’r model wedi cael ei ddefnyddio ers 2007/08 i sicrhau nad oes gormodedd/prinder o athrawon sydd newydd gymhwyso mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r model ystadegol yn ystyried data hanesyddol go iawn a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys demograffeg dysgwyr ac athrawon ynghyd â chymarebau athrawon i ddisgyblion.

3. Y llynedd, rhoesom wybodaeth am broses recriwtio i raglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) sy’n dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a phroses TPSM ar wefan llyw.cymru. Nod y dudalen we hon yw rhoi eglurder i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar y broses TPSM a’r broses ddyrannu, a darparu tryloywder i'r cyhoedd. Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar y dudalen we honno, gan ddisodli ein llythyr atoch ynglŷn â'r dyraniadau ar lefel genedlaethol o ran nifer y myfyrwyr a dderbynnir ar gyrsiau AGA sydd â statws athro cymwysedig: blwyddyn academaidd 2025/26

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff

AGAducationAddysgGA@llyw.cymru
Gwefan ● websAGA: www.llyw.cymru
www.gov.wales
CF10 3NQ

**Gweithredu**

4. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn rhoi sylw dyledus i'r nifer o ddarpar athrawon cynradd ac uwchradd a ddymunir yn genedlaethol ar gyfer AGA ym mlwyddyn academaidd 2026/27 a nodir yn y tabl yn yr atodiad sydd ynghlwm. Darperir cyfanswm y rhifau ar gyfer y cyfnodau cynradd ac eilaidd. Daw'r niferoedd hyn o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o'r galw am athrawon sydd newydd gymhwyso, y mae'n rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg eu hystyried o dan *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017* wrth gyflawni ei swyddogaethau.

5. Nid yw'r ffigyrau yn yr atodiad sydd ynghlwm yn cynnwys y lefel stoc a ddymunir o athrawon cyfrwng Cymraeg ar wahân o hyd – byddai'r niferoedd bach yn y garfan hon yn arwain at allbynnau amrywiol iawn bob blwyddyn gan gynhyrchu ansefydlogrwydd yn y dangosyddion cenedlaethol ynghylch cyflenwad y Gweithlu a thanseilio cynaliadwyedd rhaglenni AGA. O dan brosesau monitro Cyngor y Gweithlu Addysg mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddisgwyl bod canran y recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i Raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon wedi'i chynnwys ac yn gysylltiedig â statws achrededig parhaus rhaglenni AGA. Er mwyn cefnogi'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a darparu ein cynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg, mae'n dal i fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bartneriaethau barhau i weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r rhai sy'n cael eu recriwtio i
bob rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon yn athrawon dan hyfforddiant sy'n dysgu sut i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid ystyried hyn ar lefel rhaglenni unigol ac ar draws darpariaeth y Bartneriaeth AGA.

6. Mae'r gofyniad 30% yn un o amrywiaeth o gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gefnogi recriwtio i'r sector cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, dylid ystyried hyn nid yn unig fel canlyniad recriwtio a ddymunir ar gyfer ein partneriaethau AGA ond hefyd fel nod i'r sector addysg gyfan. Mae pawb sy'n ymwneud ag addysg yn chwarae rôl yn y gwaith o sicrhau cyflenwad digonol o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg sy'n barod ac yn gallu camu i Addysg Gychwynnol Athrawon er mwyn i'n partneriaethau AGA allu bodloni'r gofyniad hwn o ran recriwtio, gan sicrhau eu statws achrededig ac felly'r ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon yn rhanbarthol.

7. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddefnyddio'r gofyniad hwn fel dangosydd i'r sector addysg cyfan wrth werthuso llwyddiant strategaethau a ddefnyddir gan bob sefydliad, ar gyfer sicrhau cronfa ddigonol o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg posibl i bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon allu eu denu at eu rhaglenni. Fodd bynnag, os na welir tystiolaeth yn y ffurflenni monitro o gynnydd yn nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg neu'r niferoedd cyfrwng Cymraeg a recriwtir yn ehangach, efallai y gofynnir i bartneriaethau ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r camau a gymerant i gyflawni hyn.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i Gymru Wrth-hiliol ac i weithredu ein cynllun ar gyfer recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bwriedir cyhoeddi fersiwn bellach o'r cynllun hwnnw, ac mae'r data am y gweithlu ac am raddedigion yn

awgrymu bod lefelau'r athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o fewn ein gweithlu o athrawon ysgol yn parhau i fod yn isel, o gymharu â phoblogaeth ein dysgwyr. Bydd y dynodwr ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn parhau ar 5%, felly, a byddwn yn parhau i'w ddefnyddio fel dangosydd ar gyfer y sector addysg gyfan wrth werthuso llwyddiant strategaethau a ddefnyddir gan bob sefydliad, gan gynnwys pob partneriaeth AGA, sydd wedi ymrwymo i gynyddu ceisiadau gan y myfyrwyr hyn a chynnig cymorth yn ystod y broses ymgeisio a rhaglenni AGA. Rydym yn gofyn i Gyngor y Gweithlu Addysg barhau i
fonitro ceisiadau lleiafrifoedd ethnig a'r nifer a dderbynnir ar raglenni yn fisol.

9. Wrth bennu dyraniadau ar gyfer pob Rhaglen AGA sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer 2026/27, rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg barhau i ddefnyddio dull gweithredu teg a chyfartal, ar sail methodoleg a thechnegau statudol cadarn. Dylid ystyried meintiau carfan priodol, a dylai'r dull hwn ei gwneud yn bosibl nodi a chefnogi'r ystyriaethau a'r galw rhanbarthol, wrth ddyrannu, yn ôl:
    a. cyfnod, neu arbenigedd pwnc uwchradd ar gyfer pob rhaglen / llwybr AGA (lle bo'n berthnasol)
    b. cyfrwng iaith
    c. eich gwybodaeth arbenigol ynghylch rhaglenni penodol, eu capasiti a'u llwyddiant recriwtio mewn blynyddoedd blaenorol.

10. Wrth ystyried dyrannu niferoedd y sector uwchradd yn ôl rhaglen AGA uwchradd, rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg gadw mewn cof ffocws parhaus Ysgrifennydd y Cabinet ar ein pynciau blaenoriaeth na ddylai gael eu heffeithio'n niweidiol gan recriwtio i bynciau neu gyfnodau eraill. Y meysydd pwnc â blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yw:
    - Bioleg
    - Cemeg
    - Dylunio a Thechnoleg
    - Technoleg Gwybodaeth / Cyfrifiadura
    - Mathemateg
    - Ieithoedd Tramor Modern
    - Ffiseg
    - Cymraeg

11. Anogir Partneriaethau AGA i ragori ar eu dyraniadau ar gyfer rhaglenni uwchradd (ac eithrio yn achos TAR Addysg Gorfforol) lle y gallant wneud hynny o fewn paramedrau rhesymol a bennir yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg. Ar gyfer rhaglenni cynradd, fel y llynedd, pennir goddefiant o ddim mwy nag 20% uwchlaw'r dyraniad. Mae hyn mewn ymateb i recriwtio uwch na'r disgwyl i gyrsiau TAR cynradd dros y 3 i 5 mlynedd diwethaf. Bwriedir i'r goddefiant hwn droi'r pwyslais at y sector uwchradd lle mae angen atgyfnerthu'r lefelau recriwtio. Bwriedir iddo hefyd sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran cyflogaeth i athrawon newydd yn y sector cynradd, lle mae niferoedd disgyblion yn edwino a'r cyd-destun cyllidol wedi'i gyfyngu.

12. Mae TAR â Chyflog a TAR Rhan-amser Partneriaeth y Brifysgol Agored yn parhau i fod wedi'u heithrio o'r broses ddyrannu. Mae eu lefelau recriwtio nhw wedi'u pennu o dan gytundeb grant sy'n cefnogi athrawon dan hyfforddiant na allant fanteisio ar raglenni amser llawn ar y llwybrau amgen i yrfa addysgu.

13. Gan ddefnyddio'r fethodoleg ym mhwynt **Error! Reference source not found.** uchod, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyfrifo'r dyraniadau rhanbarthol fesul cyfnod ac iaith, gan ystyried arbenigeddau pwnc ar gyfer addysg uwchradd.

14. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyfrifo dyraniadau ar gyfer pob rhaglen AGA ac yn cyflwyno'r rhain yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru erbyn 3 Rhagfyr 2025. Bydd angen cyfiawnhau'r dyraniadau hyn ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn gadarn yn wyneb her neu waith craffu annibynnol.

15. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r cyflwyniad ac yn ymateb i Gyngor y Gweithlu Addysg erbyn 5 Rhagfyr 2025.

16. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn gallu hysbysu Partneriaethau AGA o'u dyraniadau erbyn 10 Rhagfyr 2025.

17. Mae'r llinell amser hon yn berthnasol i broses eleni yn unig. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg yn cadw'r hawl i reoli amserlen y broses mewn blynyddoedd i ddod yn ôl a welant yn dda, gan ystyried cylchoedd recriwtio Partneriaethau AGA, a'r setiau data sydd eu hangen ar gyfer TPSM a ddaw i law.

18. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau â'i gyfrifoldeb dros fonitro lefelau recriwtio yn fisol ar gyfer pynciau a chyfnodau, y nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a recriwtio myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol, o dan eu dyletswyddau fel y corff sy'n achredu. Bydd y Cyngor yn adrodd i Lywodraeth Cymru am y data hyn yn fisol heb gost ychwanegol yn unol â rhwymedigaethau statudol Cyngor y Gweithlu Addysg.

19. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn rhybuddio Llywodraeth Cymru ar unwaith lle mae recriwtio i raglenni'r flwyddyn academaidd nesaf yn debygol o fod yn fwy na'r dyraniadau o fyfyrwyr a ddymunir ar gyfer pob partneriaeth i unrhyw radd sylweddol, fel y gall swyddogion sicrhau hyfywedd unrhyw gynlluniau cymhelliant presennol. Bydd y Cyngor hefyd yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at unrhyw batrymau adrodd anarferol mewn pynciau, cyfnodau neu gyfryngau iaith er mwyn sicrhau y gweithir tuag at ddyraniadau mewn ffordd deg.

20. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg yn cadw'r hawl i dynnu'r trefniadau hyn yn ôl unrhyw bryd. Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyfyngu ar barhau i recriwtio i unrhyw bynciau neu gyfnodau lle mae lefelau recriwtio wedi mynd y tu hwnt i'r paramedrau y cytunwyd arnynt. Gall hyn fod yn berthnasol i bartneriaethau cyfan, cyfnodau yn genedlaethol neu raglenni penodol yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

**Camau Nesaf**

22. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiweddaru ac adolygu'r TPSM fel rhan o waith parhaus ar ddatblygu model a chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon newydd i'r gweithlu cenedlaethol i gynnal cymarebau athrawon disgyblion – a'u lleihau, lle bo'n briodol –, amddiffyn rhag cael gormodedd o athrawon a darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cefnogi datblygu polisïau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n dod i'r fei.

23. Bydd allbynnau blynyddol y TPSM yn parhau i gael eu darparu i Gyngor y Gweithlu Addysg at ddibenion monitro sy'n rhan o'ch rhwymedigaethau statudol o ran achredu a monitro AGA yng Nghymru.

24. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu'r lefelau recriwtio i AGA yn genedlaethol ac mae'n cadw'r hawl i adfer y capiau recriwtio ar gyfer AGA uwchradd mewn blynyddoedd academaidd i ddod.

25. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ohebiaeth hon ar llyw.cymru yn Proses recriwtio addysg gychwynnol athrawon | LLYW.CYMRU.

26. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn hysbysu partneriaethau AGA y bydd rhan o fonitro statws achrededig yn cynnwys disgwyliadau clir Llywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio i raglenni AGA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27, yn unol â'r llythyr hwn. Yn ogystal, dylid cynghori partneriaethau AGA am bwysigrwydd darparu data recriwtio amserol a chywir i’r Cyngor a Llywodraeth Cymru pan ofynnir amdanynt. Dylai hyn gael ei gyfathrebu'n ffurfiol i'r holl bartneriaethau AGA sydd â rhaglenni ar gael ym Mlwyddyn Academaidd 2026/27 erbyn 10 Rhagfyr.

Yr eiddoch yn gywir



**Max White**
Pennaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon

**Atodiad A:**

| *Tabl 1: Stoc athrawon newydd a ddymunir ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Israddedig** | **Ôl-raddedig** | **Cyfanswm** |
| Cynradd | 224 | 338 | 563 |
| Uwchradd | | | 1,009 |
| **Cyfanswm** | | | 1,572 |

Bwriad cael y stoc newydd o athrawon yw helpu i leihau'r gymhareb rhwng disgyblion ac athrawon yn y sector uwchradd a'r sector cynradd, ac mae'n adlewyrchu lefelau recriwtio AGA gwirioneddol a gyflawnwyd ar wahân yn y sectorau cynradd ac uwchradd mewn blynyddoedd blaenorol. Byddai'r niferoedd hyn o athrawon yn cynnal dyheadau mewn perthynas â'r cyfnod uwchradd lle mae recriwtio i raglenni AGA ar ei fwyaf heriol a lle mae'r gymhareb rhwng disgyblion ac athrawon yn dal i fod yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol. Byddai'n cadw i raddau y lefelau cynradd lle mae recriwtio i raglenni AGA wedi bod yn fywiog - gwelwyd gor-recriwtio mewn rhai blynyddoedd diweddar – a lle mae rhagamcanion o ostyngiad yn niferoedd disgyblion. Mae rhagamcanion Ionawr 2025 yn dynodi y bydd niferoedd disgyblion meithrin a chynradd amser llawn yn parhau i ostwng, a darlun tebyg ar gyfer niferoedd uwchradd. Fel yn achos y flwyddyn flaenorol, mae'r model wedi rhagdybio llai na 100% o newydd-ddyfodiaid yn y sector uwchradd.

Nod llunio model TPSM sy'n lleihau cymarebau rhwng disgyblion ac athrawon (dylid nodi bod y gymhareb athrawon a disgyblion, yn genedlaethol ac yn lleol, yn cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel ysgol ac awdurdod lleol mewn perthynas â'u rôl fel cyflogwyr athrawon yng Nghymru) yw lleihau effaith y pandemig drwy leihau maint dosbarthiadau. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu dysgwyr o ran eu cyrhaeddiad yn ogystal â lles athrawon. Gall lleihau cymarebau athrawon a disgyblion hefyd helpu i sicrhau bod digon o athrawon medrus iawn yn y gweithlu, gan gynnwys y rhai sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn yr amrywiaeth eang o rolau ADY.

Mae data o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn nodi bod 375 yn llai o athrawon cymwysedig cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion meithrin a chynradd (gostyngiad o 3.3%) yn Nhachwedd 2024 o gymharu â mis Tachwedd 2023. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 2.2% (240 yn llai) yn nifer yr athrawon cymwysedig cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion uwchradd. Yn y blynyddoedd blaenorol gosodwyd cyfradd yr ail-ddyfodiaid gyda mwy o ddibyniaeth ar ail-ddyfodiaid na myfyrwyr yn dechrau cyrsiau AGA. Diwygiwyd hyn yn 2020/21 ac mae'n parhau i sicrhau bod mwy o athrawon newydd sydd wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd drwy'r rhaglenni AGA cadarn ac achrededig newydd ar gael, heb leihau lle o fewn y gweithlu ar gyfer ymarferwyr profiadol sydd efallai'n dymuno dychwelyd i addysgu. Bydd mwy o ddibyniaeth ar ddarpar athrawon yn sicrhau bod proffil oedran y gweithlu yn cael ei gydbwyso'n well ar draws y sector; mae'n bosibl bod mwy o ddibyniaeth ar ail-ddyfodiaid yn creu anghydbwysedd o ran proffil oedran yn y gweithlu sydd â goblygiadau niweidiol unwaith y bydd yr ail-ddyfodiaid hyn yn cyrraedd oedran ymddeol.

Wrth edrych ar y staff a gollwyd, mae cyfradd gyfartalog o dair blynedd wedi cael ei defnyddio, o ystyried y darlun anghyson o ran gweithlu ar draws blynyddoedd y pandemig a blynyddoedd eraill.

| ***Tabl 2: Rhagamcanion dangosol o'r stoc o athrawon newydd a ddymunir ar gyfer blynyddoedd academaidd 2027/28 (yn ddarostyngedig i newid)*** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Israddedig** | **Ôl-raddedig** | **Cyfanswm** |
| Cynradd | 239 | 360 | 598 |
| Uwchradd | | 1,028 | **1,028** |
| **Cyfanswm** | | | **1,626** |

| ***Tabl 3: Rhagamcanion dangosol o'r stoc o athrawon newydd a ddymunir ar gyfer blynyddoedd academaidd 2028/29 (yn ddarostyngedig i newid)*** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Israddedig** | **Ôl-raddedig** | **Cyfanswm** |
| Cynradd | 251 | 378 | **629** |
| Uwchradd | | 1,045 | **1,045** |
| **Cyfanswm** | | | **1,674** |

**Mae'r rhifau dangosol ar gyfer gwybodaeth yn unig ac ni ddylid eu hystyried yn gadarnhad o'r dyraniadau ar lefel genedlaethol o nifer y darpar athrawon ar gyrsiau AGA mewn blynyddoedd i ddod.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cadarnhad blynyddol i Gyngor y Gweithlu Addysg ar y stoc a ddymunir o athrawon newydd ar sail y data go iawn mwyaf cyfredol sy'n ymwneud â demograffeg disgyblion ac athrawon a lefelau recriwtio AGA.